# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 16 Ebrill 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(123)v5

**Teyrngedau er cof am y Farwnes Thatcher**

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

**Cwestiynau Brys**
**Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr achosion presennol o'r frech goch yn ne-orllewin Cymru?

**Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith ar y diwydiant amaeth o gau safle prosesu cig Vion ar Ynys Môn?

**Russell George (Sir Drefaldwyn):** Pa gymorth ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei roi i helpu ffermwyr defaid yr ucheldir yr effeithiwyd arnynt yn ddiweddar gan y tywydd oer difrifol?

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)** (Tudalennau 4 - 6)
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Maes Awyr Caerdydd (30 munud)**

**Dogfennau Ategol**

York Aviation - Effaith Economaidd Maes Awyr Caerdydd - Saesneg yn unig

Arup: Gwerth a Gwerth am Arian - Saesneg yn unig)
M&G Barry Consulting - y Cyd-destun Strategol Rhanbarthol - Saesneg yn unig)

**4. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Gyrfa Cymru (30 munud)**

**5. Datganiad gan y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd - i'w gyhoeddi fel Datganiad Ysgrifenedig**

**6. Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013 - Gohiriwyd**

**7. Gorchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013 (15 munud)**

**NDM5201 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Orchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2013.

**Dogfennau Ategol:**
Gorchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013 - Saesneg yn unig
Memorandwm Esboniadol - Saesneg yn unig
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**8. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Plant a Theuluoedd (15 munud)**

**NDM5164 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Plant a Theuluoedd, sy'n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf Plant 1989 (adran 31A (4A)) ac adrannau 125 i 131 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

**Dogfennau Ategol:**
I weld copi o'r Bil ewch i:
http://services.parliament.uk/bills/2012-13/childrenandfamilies.html
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Adroddiad ar y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**9. Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) (60 munud)**

**NDM5197 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)

Gosodwyd y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 26 Tachwedd 2012.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cymundeau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 21 Mawrth 2013.

**Dogfennau Ategol:**
Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Adroddiad y  Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**10. Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) (15 munud)**

**NDM5198 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**11. Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) (90 munud)**

**NDM5199 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

Gosodwyd y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 3 Rhagfyr 2012.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 25 Mawrth 2013.

**Dogfennau Ategol :**
Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Adroddiad Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

### 12. Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) (5 munud)

**NDM5200 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy’n deillio o’r Bil Trawsplannu Dynol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o’r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy’n codi o ganlyniad i’r Bil.

### Cynnig i ethol Aelod a Chadeirydd i’r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**NDM5207 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

1. Gwyn Price (Llafur Cymru) yn aelod o’r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Mak Drakeford (Llafur Cymru), a;

2. Vaughan Gething (Llafur Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:00, Dydd Mercher, 17 Ebrill 2013